OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2312

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2007

## RHAN 3

DIWYGIADAU I REOLIADAU 2007

**28.** Ar ôl rheoliad 2(1), mewnosoder—

"(1A) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddyfarnu bod cwrs yn gwrs gradd cywasgedig os yw'r cwrs hwnnw, yn ei farn—

(a) yn gwrs ar gyfer gradd gyntaf (heblaw gradd sylfaen);

(b) yn gwrs amser-llawn a ddynodir o dan reoliad 5(1); ac

(c) yn para am ddwy flynedd academaidd.".